**Gwenda Thomas AC / AM**
**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-04-492
Ein cyf/Our ref GT/00422/13

William Powell AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA
committeebusiness@cymru.gsi.gov.uk

17 Awst 2013

Annwyl William,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 26 Mehefin at y Gweinidog Addysg a Sgiliau ynghylch y Ddeiseb a gawsoch gan Gangen Sir Benfro o'r Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth ar ddiagnosis i blant ag Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig (ASD). Rwy'n ymateb am fod y mater hwn yn rhan o'm portffolio i.

Mae'n hanfodol bod plant a'u rhieni yn gallu cael diagnosis ASD a gwasanaethau cymorth yn brydlon. Arweinir y llwybr diagnostig gan Fyrddau Iechyd Lleol a gall y broses fod yn gymhleth ac yn llafurus iawn am fod rhaid i asesiadau amlddisgyblaethol ac arbenigol gael eu cynnal gan dîm o arbenigwyr yn gweithio ar draws byrddau iechyd ac awdurdodau lleol.

Ers i ni lansio'r Cynllun Gweithredu Strategol ASD yn 2008 mae llawer o waith wedi'i wneud i wella gwasanaethau awtistiaeth yng Nghymru. Mae gennym seilwaith sefydlog ar gyfer ASD; bellach mae arweinydd ASD, grŵp llywio a chynllun gweithredu lleol yn ardal pob awdurdod lleol. Er bod cynnydd da wedi'i wneud cydnabyddwn fod angen gwneud llawer mwy i wneud gwahaniaeth go iawn i fywydau plant ag ASD a'u rhieni a'u gofalwyr.

Rydym wrthi ar hyn o bryd yn adnewyddu'r Cynllun Gweithredu Strategol ASD ac i gychwyn y gwaith hwn fis Tachwedd diwethaf cynaliasom dri digwyddiad ymgynghori â rhanddeiliaid mewn partneriaeth â'r Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth, Awtistiaeth Cymru ac Autism Initiatives. Bydd yr adborth a gawsom yn cael ei ddefnyddio yn sylfaen i flaenoriaethau gweithredu'r dyfodol. Yn y digwyddiadau hyn rhai o'r prif bryderon a fynegwyd gan rieni a gofalwyr oedd yr amseroedd aros hir am ddiagnosis a'r gwahaniaethau yn yr amseroedd aros ar draws ardaloedd awdurdodau lleol.

I'n helpu i benderfynu pa gamau i'w cymryd, mae grŵp cynghori arbenigol ASD yn cael ei sefydlu i ddatblygu'r Cynllun Gweithredu Strategol adnewyddedig ar gyfer ASD. Bydd cynrychiolwyr yn cael eu gwahodd o'r sector gwirfoddol, o awdurdodau lleol, o fyrddau iechyd ac o adrannau perthnasol o Lywodraeth Cymru. Bydd y Cynllun Gweithredu drafft yn cael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn y flwyddyn newydd.

Ar 18 Mehefin gofynnodd Paul Davies AC Gwestiwn Llafar y Cynulliad yn gofyn i'r Prif Weinidog wneud datganiad ar awtistiaeth. Am fod pryderon wedi'u mynegi am amseroedd aros yn Sir Benfro, cytunodd y Prif Weinidog i ddarparu diweddariad ysgrifenedig ar y sefyllfa leol. Ers hynny mae Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda wedi dweud y bydd cynllun gweithredu yn cael ei roi ar waith o fis Medi i fynd i'r afael â'r rhestr aros yn Sir Benfro sydd ar hyn o bryd yn bedair blynedd ac yn cynnwys tua 150 o blant.

I gefnogi gwelliannau ym maes diagnosis ASD i blant rydym yn ariannu'n rhannol Ganolfan Ymchwil Awtistiaeth Cymru (WARC) ym Mhrifysgol Caerdydd er mwyn sefydlu canolfan ymchwil-polisi-ymarfer ar gyfer diagnosis plant ac rydym wedi ariannu WARC i wneud gwaith datblygu ar offer diagnostig ASD i blant.

Ar 3 Gorffennaf cefais gyfarfod â Phrif Weithredwr y Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth i drafod polisi awtistiaeth. Buom yn siarad am amseroedd aros a chydymffurfiaeth â chanllawiau NICE ar 'Adnabod, Atgyfeirio a Diagnosio Plant a Phobl Ifanc ar y Sbectrwm Awtistiaeth' fel y cyfeiriwyd atynt yn y Ddeiseb. Mae'n rhaid i weithwyr iechyd proffesiynol ystyried canllawiau NICE wrth gynllunio a darparu gwasanaethau am mai eu nod yw ysgogi a mesur gwelliannau mewn ansawdd a disgrifio'r hyn y dylai gwasanaeth da ei gynnwys. Bydd y mater hwn yn cael ei ystyried gan y grŵp cynghori arbenigol ASD yn rhan o'r broses o adnewyddu'r Strategaeth ASD.

Bydd Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn trawsnewid y ffordd y caiff gwasanaethau gofal cymdeithasol eu defnyddio a'u darparu yng Nghymru. Mae'r Bil yn rhoi hawl i bobl gael asesiad gofal cymdeithasol a fydd yn gymesur â'u hanghenion ac mae hefyd yn mynnu bod gwybodaeth, cyngor a chymorth yn cael eu darparu i gynyddu gwybodaeth pobl o'r gwasanaethau sydd ar gael yn lleol ac o sut i gael gafael ar y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt. Byddaf yn sicrhau bod cydweithio'n parhau fel bod y Cynllun Gweithredu Strategol adnewyddedig ar gyfer ASD yn ategu'r darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn y Bil a fydd yn rhoi i ddinasyddion fwy o lais a rheolaeth dros y gwasanaethau y maent yn eu derbyn.

Yn gywir

Gwenda.

**Gwenda Thomas AC / AM**
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services